CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 371 (Cy.35)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr awdurdod i adfer y costau a dalwyd ganddo mewn cysylltiad ag ymchwiliadau neu wrandawiadau eraill sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu unedol, cynlluniau lleol neu barthau cynllunio syml sydd ag effaith yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi swm dyddiol safonol y caniateir ei godi am bob diwrnod y mae person a benodir i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad wrthi'n ei gynnal, neu sydd fel arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig ag ef.

O ran ymchwiliad neu wrandawiad arall sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005, £679 yw'r swm a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.

Mae hynny'n disodli'r swm o £618, a ragnodwyd ar gyfer y flwyddyn 2004/2005 gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/2801) (Cy.269), ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad cymwys yr oedd y Rheoliadau hymny yn gymwys iddo ac a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2005 ac sy’n parhau wedi’r dyddiad hwnnw.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 371 (W.35)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations apply where the National Assembly for Wales is authorised to recover costs borne by it in connection with inquiries or other hearings relating to unitary development plans, local plans or simplified planning zones which have effect in Wales.

The Regulations prescribe a standard daily amount which may be charged for each day the person appointed to hold the inquiry or hearing is engaged in the conduct of it, or is otherwise engaged on work connected with it.

The amount prescribed by these Regulations, in relation to an inquiry or other hearing which opens on or after 1 April 2005, is £679.

This replaces the amount of £618, which was prescribed for the 2004/2005 year by The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/2801) (W.269), otherwise than in relation to a qualifying inquiry to which those Regulations applied and which opened before, and remains open after, 1 April 2005.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 371 (Cy.35)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *22 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(1) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 303A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 (p.49). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf 1990 i gael y diffiniad o "*prescribed*".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau perthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac y maent bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5), erthygl 4; *gweler* y cofnod am Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) yn Atodlen 3 i Orchymyn 2000.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 371 (W.35)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

## The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *22 February 2005* |
| *Coming into force* | *1 April 2005* |

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 303A(5) of the Town and Country Planning Act 1990(**1**) ("the Act") and now exercisable, in relation to Wales, by the National Assembly(**2**), hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**. -(1) These Regulations may be cited as the Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005 and come into force on 1 April 2005.

(2) These Regulations apply to Wales.

(1) 1990 c.8. Section 303A of the Town and Country Planning Act 1990 was inserted by section 1 of the Town and Country Planning Act (Costs of Inquiries etc.) Act 1995 (c.49). *See* section 336(1) of the 1990 Act for the definition of "prescribed".

(2) The functions of the Secretary of State under the relevant sections were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now exercisable by the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5), article 4; *see* the entry for the Town and Country Planning Act 1990 (c.8) in Schedule 3 to the 2000 Order.

**Y personau a'r ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt**

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal, neu i fod yn un o'r personau a benodir felly sydd i gynnal, ymchwiliad cymwys, o fewn yr ystyr sydd i'r term "qualifying inquiry" yn adran 303A(1) o'r Ddeddf, sydd i ddechrau ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

**Y swm dyddiol safonol**

**3**. Os bydd ymchwiliad cymwys yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005, £679 fydd y swm dyddiol safonol a ragnodir gan adran 303A(5) o'r Ddeddf.

**Dirymu ac arbed**

**4**. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002(**1**) wedi'u dirymu, ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad cymwys yr oedd y Rheoliadau hymny yn gymwys iddo ac a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2005 ac sy’n parhau wedi’r dyddiad hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

22 Chwefror 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) O.S. 2002/2801 (Cy.269).

(2) 1998 p.38.

**Persons and inquiries to which these Regulations apply**

**2**. These Regulations apply in relation to any person appointed by the National Assembly to hold, or as one of the persons so appointed who are to hold, a qualifying inquiry within the meaning of that term in section 303A(1) of the Act which opens on or after the date on which these Regulations come into force.

**Standard daily amount**

**3**. Where a qualifying inquiry opens on or after 1 April 2005, the standard daily amount prescribed under section 303A(5) of the Act is £679.

**Revocation and saving**

**4**. The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002(**1**) are revoked, otherwise than in relation to a qualifying inquiry to which those Regulations applied and which opened before, and remains open after, 1 April 2005.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**).

22 February 2005

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) S.I. 2002/2801 (W.269).

(2) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 Rhif 371 (Cy.35)

# 2005 No. 371 (W.35)

## CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005

## TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091073-7

9 780110 910734

**£3.00**

W04/3/05 ON